Trosolwg o'r trefniadau amgen ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn haf 2021

Cynnwys

	Tudalen
1. Cyflwyniad	2
2. Cefndir	2
3. Ein dull	3
4. Fframweithiau rheoleiddio amgen	4
5. Atebion gwahanol ar gyfer cymwysterau gwahanol	6
6. Ein dulliau cyfathrebu	8
7. Monitro haf 2021	9
8. Canlyniadau	9
9. Apeliadau	10
10. Beth nesaf – dull ar gyfer 2021/22	10

1. Cyflwyniad

Mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith sylweddol ar gymwysterau galwedigaethol drwy gydol blwyddyn academaidd 2020/21. Arweiniodd effaith barhaus cyfyngiadau iechyd y cyhoedd a gyflwynwyd o ganlyniad i'r pandemig at darfu ar addysgu a dysgu, a chanslo ystod o arholiadau ac asesiadau mewn cymwysterau galwedigaethol.

Mae'r dirwedd cymwysterau galwedigaethol yn y DU yn gymhleth, gyda nifer fawr o gymwysterau ar gael ar draws ystod eang o sectorau galwedigaethol. Mae cymwysterau galwedigaethol ar gael ar wahanol lefelau a meintiau. Ar hyn o bryd mae dros 19,000 o gymwysterau galwedigaethol yn cael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru, a dyfernir y rhain gan 95 o gyrff dyfarnu. Rhoddwyd dros 306,000 o dystysgrifau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn 2020.

Mae'r rhan fwyaf o'r cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru hefyd ar gael yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae cymwysterau galwedigaethol yn ddefnyddiol mewn nifer o ffyrdd, yn cynnwys dilyniant i ddysgu pellach mewn addysg bellach neu uwch, dangos cymhwysedd galwedigaethol neu fel trwydded i fynd i swyddi penodol. Fe'u cymerir gan ddysgwyr ar draws ystod o leoliadau, gan gynnwys ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith, naill ai fel cymwysterau annibynnol neu fel rhan o raglenni prentisiaeth.

O ystyried y ffactorau hyn, roedd yn hanfodol ein bod yn defnyddio dull o ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol yn 2020/21 a oedd yn cydnabod eu hamrywiaeth, yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i gyrff dyfarnu weithredu mesurau lliniaru priodol, ac yn cyd-fynd â'r dulliau a gymerwyd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Ceisiodd ein dull gweithredu leihau effaith y pandemig ar ddysgwyr a oedd i fod i gwblhau eu cymwysterau yn haf 2021 a, lle bynnag yr oedd modd, galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg neu eu gyrfa.

2. Cefndir

Ym mis Awst 2020, cyhoeddwyd *Dyfarnu cymwysterau galwedigaethol yn haf 2020*. Roedd y ddogfen yn nodi'r camau a gymerwyd gennym i ymateb i effaith pandemig y coronafeirws ar gymwysterau galwedigaethol a gâi eu dyfarnu yn haf 2020 a sut yr aethom ati i geisio sicrhau bod cynifer o ddysgwyr â phosibl yn gallu cwblhau eu cymwysterau a chamu ymlaen.

Er i ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant allu croesawu dysgwyr yn ôl ar gyfer tymor hydref 2020, tarfwyd yn barhaus ar addysgu a dysgu oherwydd achosion lleol o'r feirws a'r angen i staff a dysgwyr hunanynysu. Roedd cyfyngiadau iechyd y cyhoedd hefyd yn cyfyngu ar nifer y dysgwyr yr oedd rhai canolfannau'n gallu eu cael ar y safle neu'n atal mynediad i leoedd gwaith i asesu dysgwyr ar gymwysterau cymhwysedd.

Gwaethygodd y sefyllfa wrth i'r gaeaf fynd yn ei flaen gyda chyfnod clo cenedlaethol pellach a effeithiodd ar dymor gwanwyn 2021.

Gwyddom fod darparwyr dysgu wedi parhau i ddarparu dysgu ar-lein yn ystod y cyfnod clo. Fodd bynnag, roedd yr effaith ar asesu cymwysterau galwedigaethol yn sylweddol. Mae llawer o gymwysterau'n gofyn am asesu sgiliau ymarferol neu i asesiadau gael eu cwblhau mewn amgylchedd rheoledig. Ni allai llawer o'r asesiadau barhau tra nad oedd cyswllt wyneb yn wyneb yn bosibl mewn canolfannau.

Effeithiwyd ar addysg llawer o ddysgwyr seiliedig ar waith ar raglenni prentisiaeth gan ffyrlo a phwysau eraill ar gyflogwyr o ganlyniad i'r pandemig. Roedd effaith y pandemig ar ddysgwyr a oedd yn gweithio tuag at ennill cymwysterau yn 2020/21 yn sylweddol ac roedd yn amrywio rhwng canolfannau a dysgwyr unigol.

Felly, roedd angen i ni roi trefniadau ar waith a fyddai'n caniatáu i gyrff dyfarnu wneud newidiadau i'r ffordd y cafodd eu cymwysterau eu hasesu a'u dyfarnu i alluogi cynifer o ddysgwyr â phosibl i gwblhau eu cymwysterau a chamu ymlaen.

3. Ein dull

Ceisiwyd rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i gyrff dyfarnu wneud newidiadau i'w cymwysterau, gan barhau i gynnal dilysrwydd a gwerth y cymwysterau hynny.

Mae'r rhan fwyaf o'r cymwysterau galwedigaethol a reoleiddir gennym ni hefyd yn cael eu rheoleiddio gan Ofqual (Lloegr) a CCEA Regulation (Gogledd Iwerddon). Dyfernir y cymwysterau hyn gan yr un cyrff dyfarnu ac maent yn dilyn yr un trefniadau asesu ar draws awdurdodaethau. Parhaodd y tri rheoleiddiwr i gydweithio drwy gydol 2020 a 2021 i sicrhau dull cyson ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Roedd hyn yn bwysig am ddau reswm allweddol.

Yn gyntaf, roeddem am sicrhau bod y dull a gymerwyd yng Nghymru yn gyson â'r dull a gymerwyd ar gyfer yr un cymhwyster mewn mannau eraill. Roeddem am sicrhau nad oedd gan ddysgwyr yng Nghymru fantais nac anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion.

Yn ail, fel rheoleiddiwr, mae gennym ddyletswydd i ystyried y baich a roddwn ar y cyrff dyfarnu a reoleiddir gennym. Mae Cymwysterau Cymru, CCEA Regulation ac Ofqual wedi sefydlu ffyrdd o weithio sy'n ceisio lleihau effaith ein gweithgareddau rheoleiddio ar gyrff dyfarnu a chydweithio lle mae'n briodol gwneud hynny. O ystyried graddfa a chymhlethdod y materion a wynebwyd gennym yn 2020/21, roedd yn amlwg y dylem barhau i gydweithio'n agos a chymryd dull cyffredin lle bynnag y bo modd. Byddai gosod gofynion gwahanol ar gyrff dyfarnu wedi golygu cynnydd sylweddol yn y risg na fyddai'r cyrff dyfarnu hynny'n gallu bodloni gofynion y tri rheoleiddiwr a chyflwyno canlyniadau i bob dysgwr yn haf 2021. Yn ogystal, roedd llawer o'r addasiadau i'r drefn asesu'n gofyn am fewnbwn a chytundeb gan gyrff perthnasol yn y sector, sydd mewn llawer o achosion yn gweithredu ledled y DU.

Mae nifer o gymwysterau galwedigaethol nad ydynt ond yn cael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru, gan gynnwys y gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, a chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Ar gyfer y cymwysterau hyn, defnyddiwyd dull tebyg i'r rhai a roddwyd ar waith ar gyfer cymwysterau tair gwlad.

Cynhaliwyd deialog reolaidd gyda'n cyd-reoleiddwyr a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau ein bod yn ymateb yn briodol i adborth gan y sector ac yn adolygu ein dull gweithredu yn unol â hynny.

4. Fframweithiau rheoleiddio amgen

Er mwyn galluogi cyrff dyfarnu i ymateb i'r heriau yr oedd dysgwyr yn eu hwynebu wrth gwblhau eu cymwysterau, sefydlwyd fframweithiau rheoleiddio amgen a fyddai'n eu galluogi i wneud y newidiadau angenrheidiol gan hefyd barhau i gydymffurfio â'n gofynion rheoleiddiol. O ystyried cymhlethdod ac amrywiaeth y dirwedd cymwysterau galwedigaethol, nid oedd yn bosibl gweithredu un dull a oedd yn addas i bob sefyllfa wrth fynd i'r afael â materion a wynebwyd gennym yn 2020/21. Felly, rhoesom ddull rheoleiddio llai rhagnodol ar waith, a oedd yn seiliedig ar fframweithiau rheoleiddio hyblyg sy'n seiliedig ar egwyddorion.

Yn haf 2020, gweithredwyd Fframwaith Rheoleiddio Arbennig ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu gategoreiddio eu cymwysterau a nodi'r mesurau lliniaru priodol i'w rhoi ar waith – i gyhoeddi canlyniadau wedi'u cyfrifo, i addasu'r asesiadau, neu i ohirio asesiadau. Nod y fframwaith oedd sicrhau bod cynifer o ddysgwyr â phosibl yn gallu cwblhau eu cymhwyster a symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu neu i gyflogaeth heb danseilio dilysrwydd y cymwysterau a gâi eu cyflawni gan ddysgwyr. Roedd y dull hefyd yn ceisio cysoni dulliau gweithredu â'r hyn a ddilynwyd ar gyfer cymwysterau cyffredinol lle roedd yn briodol, er enghraifft, cymwysterau a aseswyd mewn ffyrdd tebyg gyda llwybrau dilyniant tebyg. Dim ond ar gyfer dysgwyr a oedd i fod i gwblhau eu cymwysterau cyn 31 Awst 2020 yr oedd y ddarpariaeth i ddefnyddio canlyniadau wedi'u cyfrifo'n gymwys.

Ar yr un pryd ag yr oeddem yn goruchwylio'r trefniadau a roddwyd ar waith ar gyfer haf 2020, aethom ati i ddechrau cynllunio ar gyfer y dull rheoleiddio y byddai ei angen o fis Medi 2020 tan fis Awst 2021.

O ystyried effaith barhaus y pandemig ar ôl haf 2020, caniatawyd i gyrff dyfarnu barhau i ddefnyddio addasiadau o fewn eu cymwysterau yn 2020/21. Cyhoeddwyd Fframwaith Rheoleiddio Arbennig Estynedig ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol ar 12 Hydref 2020 a oedd yn caniatáu i gyrff dyfarnu benderfynu ar y ffordd orau o addasu eu cymwysterau gan gynnal eu dilysrwydd, eu dibynadwyedd a'u gwerth. Dyma rai o'r agweddau a ystyriwyd gan gyrff dyfarnu:

- newid y ffordd roedd asesiadau'n cael eu cyflwyno, er enghraifft trwy ddefnyddio prawf ar-lein yn hytrach na phrawf papur, neu gynnal asesiad o bell yn hytrach nag wyneb yn wyneb;
- lleihau faint o asesiadau sydd i'w cwblhau;
- newid y dull asesu, er enghraifft defnyddio efelychiad ymarferol yn lle arsylwad, neu drafodaeth broffesiynol yn lle arddangosiad ymarferol;
- newid gofynion arolygu, er enghraifft trwy ganiatáu arolygu ar-lein;
- hepgor neu addasu gofynion o ran profiad gwaith neu leoliadau, er enghraifft, caniatáu i ymgeiswyr fod wedi ymgymryd â chyfnod byrrach o brofiad gwaith.

Parhaodd y rheoleiddwyr i drafod trefniadau wrth gefn gyda chyrff dyfarnu fel ein bod yn barod ar gyfer effaith bellach ar gymwysterau galwedigaethol oherwydd y pandemig. Wrth i'r sefyllfa waethygu o ran iechyd y cyhoedd yn ystod misoedd y gaeaf, daeth yn amlwg na fyddai'r trefniadau oedd ar waith drwy'r Fframwaith Rheoleiddio Arbennig Estynedig yn ddigonol i liniaru'r amhariad ar addysgu, dysgu ac asesu a brofwyd gan ddysgwyr ar rai cymwysterau galwedigaethol. Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn llywodraeth y DU y byddai arholiadau'n cael eu canslo yn haf 2021 yn Lloegr. Y safbwynt o ran polisi oedd nad oedd yn ymarferol i arholiadau allanol gael eu cynnal ar gyfer rhai cymwysterau galwedigaethol yn haf 2021, ac y dylai'r canlyniadau fod yn seiliedig ar farn athrawon yn hytrach. Roedd hyn yn cyd-fynd â'r safbwynt polisi a gyhoeddwyd eisoes gan y Gweinidog Addysg ar gyfer cymwysterau cyffredinol yng Nghymru ym mis Tachwedd 2020.

Ym mis Ionawr 2021, ymgynghorodd Ofqual a'r Adran Addysg yn Lloegr (DfE) ar y trefniadau rheoleiddio a fyddai'n sail i'r dull amgen o ddyfarnu. Gweithiodd Cymwysterau Cymru a CCEA Regulation yn agos gydag Ofqual wrth ddatblygu'r fframwaith rheoleiddio i sicrhau bod barn dysgwyr a chanolfannau Cymru'n cael ei hystyried, a sicrhau cysondeb a thegwch ar draws y tair awdurdodaeth.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rhoddwyd Fframwaith Rheoleiddio Wrth Gefn Cymwysterau Galwedigaethol ar waith gan Cymwysterau Cymru, CCEA Regulation ac Ofqual ym mis Ebrill 2021, ynghyd â chanllawiau ar gyfer cyrff dyfarnu. Roedd y fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu roi eu cymwysterau mewn tri chategori fel y dangosir yn y graffigyn canlynol.



Roedd y dull yn ceisio sicrhau bod cynifer o ddysgwyr â phosibl yn gallu cwblhau eu cymwysterau yn haf 2021 a lleihau effaith yr amhariad a achoswyd gan y pandemig, cyn belled ag yr oedd modd. Byddai dysgwyr a oedd yn dilyn cymwysterau tebyg i gymwysterau

TGAU, UG neu Safon Uwch yn derbyn Gradd wedi'i Hasesu gan Athro (TAG)[1] neu Radd a Bennir gan y Ganolfan (CDG) i ddarparu cysondeb i ddysgwyr galwedigaethol o gymharu â'u cyfoedion a oedd yn dilyn cymwysterau cyffredinol.

Roedd y fframwaith yn darparu hyblygrwydd ar gyfer cymwysterau eraill nad ydynt yn debyg i gymwysterau TGAU, UG neu Safon Uwch ond nad ydynt yn asesu sgiliau galwedigaethol, er mwyn iddynt hwythau gael eu dyfarnu drwy TAG/CDG os oedd angen, i alluogi dysgwyr i gamu ymlaen.

Parhaodd y trefniadau a oedd ar waith yn flaenorol o dan y Fframwaith Rheoleiddio Arbennig Estynedig ar gyfer addasiadau i gymwysterau a oedd yn asesu sgiliau galwedigaethol yn y VCRF.

5. Atebion gwahanol ar gyfer cymwysterau gwahanol

Gweithiodd cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau mewn meysydd pwnc tebyg gyda'i gilydd i drafod dulliau cyson o addasu eu cymwysterau. Arweiniodd Ofqual y gwaith o gydlynu cyfarfodydd gyda chyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau tair gwlad a'r cyrff sector perthnasol y mae angen eu cymorth i gytuno ar newidiadau i rai mathau o gymwysterau sy'n seiliedig ar gymwyseddau.

Buom yn gweithio gyda chyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru'n unig i gytuno ar ddulliau priodol a chyffredin. Cyfarfuom hefyd â rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â chyflwyno'r cymwysterau drwy gydol y flwyddyn i sicrhau ein bod yn deall yn llawn yr heriau a wynebir gan ddysgwyr a chanolfannau yng Nghymru.

O ystyried yr ystod eang o gymwysterau sydd ar gael yn y sector galwedigaethol a'r gwahanol strwythurau sy'n bodoli ar draws yr ystod o gymwysterau, roedd yn bwysig i'r rheoleiddwyr gymryd camau priodol i sicrhau bod cymaint o gysondeb â phosibl yn y newidiadau a oedd yn cael eu gwneud. Roeddem yn gwybod bod canolfannau a dysgwyr eisiau cymaint o wybodaeth am newidiadau i'w cymwysterau cyn gynted â phosibl, ond roedd yn bwysig ein bod yn cymryd camau i gadarnhau cysondeb y dulliau a ddefnyddir gan yr holl gyrff dyfarnu i leihau unrhyw annhegwch posibl i ddysgwyr yn seiliedig ar y corff dyfarnu yr oeddent wedi cofrestru ag ef.

Ein dull ar gyfer cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant a chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru

Cydgysylltwyd y dull o gytuno ar addasiadau ar gyfer ein cymwysterau Cymeradwy i Gymru'n unig.

[1] "TAG" yw'r derminoleg a ddefnyddir ar gyfer cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol a reoleiddir gan Ofqual a CCEA Regulation, tra defnyddir "CDG" ar gyfer cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru yn unig.

Mae'r gyfres o gymwysterau newydd i Gymru'n unig ym maes **Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant** yn cael ei rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru yn unig. Buom yn gweithio gyda CBAC, City & Guilds, Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i ddod o hyd i atebion ar gyfer 2020/21 a oedd yn lleihau'r effaith ar ddysgwyr ac yn diogelu dilysrwydd y cymwysterau.

Mae gan y cymwysterau sydd ar gael yn y gyfres ddibenion a llwybrau dilyniant gwahanol yn ogystal ag amrywiaeth o ddulliau asesu. Mae rhai o'r cymwysterau'n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o theori, tra bod eraill yn cadarnhau cymhwysedd ymarferol. Nid oedd un dull unigol y gellid ei ddefnyddio ar draws y gyfres o gymwysterau, ac roedd cymwysterau o fewn y gyfres yn rhan o wahanol gategorïau (rhai wedi'u dyfarnu gan Radd a Bennir gan y Ganolfan tra bod eraill drwy asesiadau addasedig). Roedd yn hanfodol ein bod yn gweithio'n agos gyda chyrff y sector i sicrhau ein bod yn cael eu cefnogaeth ar gyfer unrhyw addasiadau a gâi eu gwneud i'r asesiadau ac y byddai'r cymwysterau'n parhau i fod yr un mor werthfawr yn y gweithle.

Parhaodd rhai problemau a oedd yn heriol i ddysgwyr yn haf 2020 i fod yn broblemus yn 2021. Un broblem na ellid ei datrys yn llawn oedd y gofyniad i rai dysgwyr gwblhau lleoliadau fel y gellid asesu eu bod yn gymwys i weithio mewn lleoliadau gofal plant. Roedd diffyg cyflogwyr a oedd yn barod i dderbyn neu'n gallu derbyn dysgwyr ar gyfer lleoliadau yn ystod y flwyddyn oherwydd effaith y pandemig ar leoliadau gofal plant. Buom yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a'r cyrff dyfarnu i addasu'r cymwysterau gymaint â phosibl, gan gynnwys lleihau nifer yr oriau yr oedd angen i ddysgwyr mewn addysg bellach eu cwblhau ar eu lleoliadau. Fodd bynnag, ni allem roi addasiadau ar waith a allai sicrhau y byddai pob dysgwr yn gallu cwblhau ei gymwysterau heb fod cyfleoedd digonol mewn lleoliadau ar gael i gadarnhau eu cymhwysedd.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r cyrff dyfarnu, Gofal Cymdeithasol Cymru a'r canolfannau sy'n darparu'r cymwysterau hyn i fonitro cynnydd dysgwyr sy'n eu cwblhau.

Nid yw cymwysterau **Sgiliau Hanfodol Cymru** yn debyg i gymwysterau TGAU neu Safon Uwch o ran strwythur ac asesu ac fe'u cymerir mewn gwahanol gyd-destunau dysgu – yn aml fel rhan o raglen brentisiaeth. Cyfarfuom â chynrychiolwyr o'r canolfannau dysgu seiliedig ar waith ac addysg bellach sy'n cyflwyno'r cymwysterau i wrando ar y problemau'r oedden nhw'n dod ar eu traws wrth asesu eu dysgwyr yn 2020/21. Buom yn trafod opsiynau posibl gyda nhw a phenderfynwyd caniatáu i ganolfannau ddewis y llwybr a oedd yn rhoi'r cyfle gorau iddynt gael eu dysgwyr i gwblhau eu cymwysterau yn haf 2021. Roedd y dull hwn yn caniatáu i ganolfannau naill ai asesu eu dysgwyr gan ddefnyddio'r asesiadau addasedig a ddarparwyd gan y cyrff dyfarnu, neu gyhoeddi Gradd a Bennir gan y Ganolfan yn seiliedig ar fathau eraill o dystiolaeth ddibynadwy a ddangosai gyrhaeddiad dysgwyr. Roedd yr hyblygrwydd hwn yn galluogi canolfannau i wneud dewisiadau gwybodus yn dibynnu ar broblemau penodol roedd eu dysgwyr yn eu hwynebu a'r lleoliadau lle'r oeddent yn cwblhau eu cymwysterau, er mwyn caniatáu i gynifer o ddysgwyr â phosibl gwblhau'r cymhwyster a'u prentisiaeth.

6. Ein dulliau cyfathrebu

Gwnaethom greu ardal Cymwysterau Haf 2021 bwrpasol ar ein gwefan a'i diweddaru'n rheolaidd i ddarparu gwybodaeth gyfredol am yr holl ddatblygiadau. Roedd y wybodaeth a gyhoeddwyd yn cynnwys:

- blogiau
- cynnwys fideo
- llythyrau a gwybodaeth i ysgolion a cholegau
- datganiadau Cymwysterau Cymru
- Datganiadau Ofqual; a
- cwestiynau a ofynnir yn aml

Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at gynnydd mewn traffig i'n gwefan. Rhwng Medi 2020 a Mehefin 2021, bu 10,943 ymweliad â'n tudalennau gwe pwrpasol 'Dyfarnu yn 2021' ac, yn gyffredinol, cyrchwyd ein gwefan 18,818 o weithiau trwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Lansiwyd cyfrif Instagram newydd ym mis Ebrill i gryfhau ein hymgysylltiad â dysgwyr a chyflwyno negeseuon allweddol ynghylch haf 2021. Ar hyn o bryd mae gan y dudalen 217 o ddilynwyr gyda'r cynnwys yn aml yn cael ei rannu gan randdeiliaid. Yn yr un cyfnod, enillodd ein tudalen Twitter 1,202,400 o argraffiadau (nifer o weithiau yr arddangoswyd ein cynnwys). Mae hyn yn ostyngiad bach o 8.6% ers y flwyddyn flaenorol lle cawsom 1,310,800 o argraffiadau ond rydym yn parhau i gael mwy na dwbl nifer yr argraffiadau a gafwyd cyn y pandemig. Cawsom 47,320 o ymgysylltiadau rhwng Medi 2020 a Mehefin 2021, o'i gymharu ag 80,090 yn y flwyddyn flaenorol. Cyfanswm ein trydariadau yn y cyfnod hwn oedd 396. Mae ein Tîm Cysylltiadau Allanol wedi ymateb i dros 244 o negeseuon e-bost a galwadau ffôn uniongyrchol gan ystod o randdeiliaid y flwyddyn academaidd hon.

Sefydlwyd grŵp rhanddeiliaid cymwysterau galwedigaethol gennym a oedd yn cyfarfod yn fisol ac yn cynnwys cynrychiolwyr o ColegauCymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru i drafod y materion oedd yn effeithio ar ddarparu cymwysterau galwedigaethol ac ystyried atebion. Roedd y grŵp hwn yn ffordd bwysig i ni gasglu barn gan y sector a sicrhau y gellid trafod unrhyw bryderon am gymwysterau tair gwlad gyda'n cyd-reoleiddwyr neu ymdrin â nhw gyda'r cyrff dyfarnu perthnasol yn ôl yr angen. Drwy gydol y flwyddyn, gwnaethom hefyd ymgysylltu ar wahân â rhwydweithiau Sgiliau Hanfodol Cymru a Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant ym maes dysgu seiliedig ar waith ac addysg bellach.

Roedd rhanddeiliaid eraill y gwnaethom ymgysylltu â hwy yn cynnwys Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB) a'r Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ). Gwnaethom hefyd gadeirio cyfarfodydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu wythnosol gyda Llywodraeth Cymru a chwrdd yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru i rannu gwybodaeth. Cafodd y cyfryngau darlledu ac

argraffu ddiweddariadau am yr holl ddatblygiadau a chynhaliwyd sesiynau briffio rheolaidd dros y ffôn.

Rhannwyd gwybodaeth â chanolfannau a rhanddeiliaid am y dulliau oedd yn cael eu datblygu a'r penderfyniadau oedd yn cael eu gwneud, ac anogwyd rhanddeiliaid yng Nghymru i ymateb i ymgynghoriadau Ofqual a'r Adran Addysg ar gymwysterau tair gwlad. Buom yn gweithio gydag Ofqual i sicrhau bod yr holl gymwysterau a gymerwyd gan ddysgwyr yng Nghymru yn cael eu cynnwys ar eu hadnodd ar-lein i ddysgwyr a chanolfannau chwilio am wybodaeth am y dull sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer eu cymwysterau nhw.

7. Monitro haf 2021

Cyfarfuom â'n cyd-reoleiddwyr, Ofqual a CCEA Regulation, bob wythnos drwy gydol y flwyddyn i rannu gwybodaeth a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon oedd gennym ynghylch cyrff dyfarnu a chymwysterau a reoleiddir ar y cyd. Roeddem hefyd yn rhan o Fwrdd Goruchwylio Cymwysterau Galwedigaethol Ofqual a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y pandemig i ystyried materion a goruchwylio sut roedd cyrff dyfarnu yn gweithredu'r trefniadau rheoleiddio amgen. Roedd y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff dyfarnu galwedigaethol allweddol, y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ), Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB) a rheoleiddwyr y DU.

Roeddem hefyd yn bresennol ym Mwrdd Polisi Cymwysterau Galwedigaethol Ofqual lle trafodwyd y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r dull o ymdrin â haf 2021 yn fanwl gyda chyrff dyfarnu.

Ar ddechrau'r flwyddyn, gwnaethom adolygu addasiadau cyrff dyfarnu i sicrhau bod cysondeb ar draws y cymwysterau a bod dulliau gweithredu yn briodol. Gan fod y VCRF wedi'i gyflwyno cyn haf 2021, roedd yn ofynnol i bob corff dyfarnu gyflwyno gwybodaeth am eu dull categoreiddio a'u mesurau lliniaru i'r rheoleiddwyr. Roedd yn ofynnol i gyrff dyfarnu hysbysu'r rheoleiddwyr am unrhyw newidiadau i gategorïau neu fesurau lliniaru cymwysterau neu os nad oeddent yn gallu cydymffurfio ag unrhyw agwedd ar y fframwaith.

Yn y cyfnod cyn haf 2021, buom yn gweithio gyda'n cyd-reoleiddwyr i gynnal cyfarfodydd adolygu parodrwydd gyda chyrff dyfarnu galwedigaethol allweddol i ddeall sut yr oeddent yn gweithredu'r trefniadau rheoleiddio diwygiedig, ac i geisio sicrwydd ynghylch sut yr oeddent yn rheoli risgiau a allai effeithio ar gyflawni canlyniadau haf 2021.

Gwnaethom hefyd ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu roi gwybod i ni drwy ein proses hysbysu am ddigwyddiadau pe baent yn debygol o fethu â chydymffurfio â gofynion rheoleiddiol haf 2021 mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys pe na baent yn gallu cyhoeddi canlyniadau'n brydlon.

8. Canlyniadau

Dyfernir cymwysterau sy'n cael eu dyfarnu drwy Radd wedi'i Hasesu gan Athro (TAG) neu Radd a Bennir gan y Ganolfan (CDG) yr haf hwn yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth ddibynadwy a ddewisir gan yr athro neu'r tiwtor. Mae'r dull a gymerir gan y ganolfan i bennu graddau wedi bod yn destun proses sicrhau ansawdd gan y corff dyfarnu. Mae trefniadau sicrhau ansawdd yn amrywio ar draws cyrff dyfarnu yn dibynnu ar y math o gymhwyster y maent yn ei gynnig.

Bydd cymwysterau nad ydynt yn cael eu dyfarnu drwy TAG/CDG yn cael eu dyfarnu gan y corff dyfarnu yn seiliedig ar yr asesiadau addasedig a gwblhawyd gan ddysgwyr. Sicrhawyd ansawdd asesiadau'n allanol gan y cyrff dyfarnu.

Bydd canlyniadau ar gyfer y rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol sy'n seiliedig ar gyfresi sy'n cael eu dyfarnu drwy TAG neu CDG yn cael eu cyhoeddi heb fod yn hwyrach na'r cymhwyster cyffredinol cyfatebol yn haf 2021. Cyhoeddir canlyniadau cymwysterau galwedigaethol Lefel 3 ar 10 Awst, ochr yn ochr â Safon UG a Safon Uwch. Cyhoeddir canlyniadau cymwysterau galwedigaethol Lefel 1 a 2 ar 12 Awst, ochr yn ochr â chanlyniadau TGAU. Fodd bynnag, yn achos cymwysterau nad oes ganddynt ddiwrnod canlyniadau penodol fel arfer, gallant gyhoeddi canlyniadau cyn neu ar ôl y dyddiadau hynny.

Dylai dysgwyr, rhieni, ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac uwch a chyflogwyr i gyd fod â hyder yn y cymwysterau a enillir gan ddysgwyr yr haf hwn.

9. Apeliadau

O ystyried y gwahanol ddulliau o ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol yn 2021, bydd rhai gwahaniaethau yn y prosesau apelio o un corff dyfarnu i'r llall. Ar gyfer cymwysterau sydd fwyaf tebyg i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch ac a ddyfernir gan ddefnyddio CDG/TAG, gall cyrff dyfarnu ddilyn prosesau apelio tebyg i'r rhai sydd ar waith ar gyfer cymwysterau cyffredinol. Pan ddyfernir cymhwyster yn seiliedig ar Radd a Bennir gan y Ganolfan (CDG) neu Radd wedi'i Hasesu gan Athro (TAG), bydd y dysgwr yn gallu apelio i'r ganolfan yn y lle cyntaf, gan mai'r ganolfan sy'n gyfrifol am y dyfarniad y seilir y canlyniad arno.

Bydd gan bob cymhwyster gam yn y broses lle gall y corff dyfarnu ystyried yr apêl. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, os nad yw apelydd yn fodlon ar sut y mae'r corff dyfarnu wedi ymdrin â'r apêl, gall gyflwyno cwyn i Cymwysterau Cymru.

10. Beth nesaf – dull ar gyfer 2021/22

Wrth iddi ddod yn amlwg y byddai'r pandemig yn parhau i gael effaith ar addysg ac asesu i'r flwyddyn academaidd nesaf, aethom ati i edrych ar ba addasiadau i gymwysterau y gallai fod angen eu gwneud i leihau'r effaith ar ganolfannau a dysgwyr.

Gwyddom y bydd addysg dysgwyr sydd newydd gwblhau blwyddyn gyntaf cwrs dwy flynedd wedi cael ei tharfu, a bod angen i ni ystyried sut i leihau'r effaith barhaus wrth fynd i haf 2022. Gwyddom hefyd y gallai fod tarfu pellach ar addysgu ac asesu yn y flwyddyn i ddod ac

y gallai rhai mathau o asesu mewn rhai cymwysterau galwedigaethol fod yn fwy heriol i ganolfannau eu cyflawni os oes cyfyngiadau symud pellach neu gyfyngiadau iechyd cyhoeddus ar waith.

Rydym yn bwriadu diwygio ac ymestyn y Fframwaith Rheoleiddio Cymwysterau Galwedigaethol Wrth Gefn fel ei fod yn caniatáu i gyrff dyfarnu barhau i addasu eu cymwysterau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mewn llawer o achosion, bydd addasiadau sydd eisoes ar waith yn parhau. Rydym hefyd yn ystyried pa drefniadau wrth gefn sydd angen eu

paratoi os bydd amhariad pellach sylweddol o ganlyniad i'r pandemig yn 2021/22 sy'n golygu nad yw'r addasiadau a roddwyd ar waith yn ddigonol.

Bydd cyrff dyfarnu yn rhoi mwy o fanylion i ganolfannau ar yr addasiadau ar gyfer cymwysterau yn 2021/22.